



**Eisteddfod
Genedlaethol
Ynys Môn
2017**

**MAES CARAFANAU
A GWERSYLLA TEULUOL**

RHEOLAU AC AMODAU

Ionawr 2017



**Eisteddfod
Genedlaethol
Ynys Môn
2017**

Ionawr 2017

Maes Carafanau a Gwersylla Teuluol 2017

Pentref Bodedern, Ynys Môn yw cartref Eisteddfod Genedlaethol 2017, ac fe'i cynhelir o 4 i 12 Awst ar gyrion y pentref ei hun yn hwylus oddi ar yr A55. Lleolir y Maes Carafanau a Gwersylla Teuluol yn gyfochrog â'r Maes.

Mae modd i chi eto eleni archebu a thalu am safle carafán neu babell ar ein gwefan www.eisteddfod.cymru

Rhagwelir ar hyn o bryd y bydd yna hyd at 750 o lecynnau ar gael (150 o safleoedd pebyll), a'r pris am safle carafán fydd £260 (yn cynnwys cyflenwad trydan) a £120 am safle pabell. Os fydd gofod yn caniatáu bydd modd gwneud cais am y 4 noson olaf ar gyfer carafán neu babell o'r 1 Mehefin ymlaen, ond ni dderbynnir ceisiadau na warantu llecynnau cyn y dyddiad hwn.

Ceisiadau grŵp - 12 fydd uchafswm unrhyw grŵp a ganiateir - os ydych wedi bod yn rhan o grŵp mwy yn y gorffennol bydd rhaid i chwi gyflwyno ceisiadau o hyd at 12, gan sicrhau eich bod yn darllen ac yn dilyn y cyfarwyddiadau perthnasol wrth archebu dros y we neu drwy gwblhau'r ffurflen gais. Rhaid anfon ceisiadau grŵp erbyn 12 Mehefin.

Carwn eich atgoffa am ein mesurau i reoli symudiad cerbydau. Gofynnwn yn garedig i chi dalu sylw arbennig i reol 8 (d) a (dd) o'r rheolau ac amodau, sydd yn ymwneud â chyfyngu nifer y cerbydau a ganiateir wrth bob carafán ac i rwystro cerbydau rhag symud ar y Maes Carafanau. Byddwn yn cymryd camau yn erbyn unrhyw un fydd ddim yn cydymffurfio â'r rheolau hyn.

Tocynnau - Yr ydym yn gwneud ein gorau i sicrhau fod yr Eisteddfod mor hygyrch a fforddiadwy â phosibl i bawb. Manteisiwch felly ar ein cynigion arbennig am docynnau Maes a chyngherddau nosweithiol wrth brynu ymlaen llaw o'r 3 Ebrill.

MYNEDIAD I'R MAES - BYDD SWYDDFA DOCYNNAU A PHRIF FYNEDFA YR EISTEDDFOD YN CAU AM 21:00 BOB NOS - NI CHANIATEIR MYNEDIAD (NAC AIL FYNEDIAD) I'R MAES WEDI HYNNY.

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth ac edrychwn ymlaen at eich croesawu i Ynys Môn - mae gwledd yn eich disgwyl. Er gwybodaeth anelwn i gael y pecyn gwybodaeth fydd yn cynnwys map, cyfarwyddiadau teithio manwl a ffurflen gofrestru allan i chi rhyw 4 wythnos cyn yr Eisteddfod ei hun.

MAES CARAFANAU A GWERSYLLA TEULUOL - RHEOLAU AC AMODAU

1. Cyffredinol

- a) Gweithredir y Maes Carafanau a Gwersylla gan yr Eisteddfod Genedlaethol, a thrwy arwyddo'r ffurflen gais, a thalu'r swm penodol, byddwch yn dod yn aelod o Gymdeithas Carafanwyr Cymru. Nid oes gennych hawl i ail-osod unrhyw elfen o'r gwasanaethau y byddwch yn eu harchebu.
- b) Mae cydymffurfio â rheolau ac amodau y Maes Carafanau a Gwersylla yn amod o'r aelodaeth. Gall diffyg cydymffurfiaeth arwain at derfynu aelodaeth a all gynnwys atal mynediad i unrhyw faes neu wasanaethau a ddarperir gan yr Eisteddfod.
- c) Ni dderbynnir cyfrifoldeb gan yr Eisteddfod Genedlaethol am niwed personol, niwed neu golled i eiddo, oni ellir profi bod yr Eisteddfod Genedlaethol yn gyfrifol drwy weithred neu anwaith.
- ch) Rhaid i bob carafán fod â chyfleuster toiled cemegol, a darperir manau pwrpasol i wagio'r toiledau hyn – ni ddylid arllwys unrhyw hylif ar wyneb y tir.
- d) Caniateir anifeiliaid anwes ond disgwylir i'r perchennog gadw rheolaeth arnynt gydol y cyfnod.
- dd) Darperir y Maes Carafanau a Gwersylla ar gyfer teuluoedd ac oedolion. **Cymhellir yn gryf i grwpiau o fechgyn neu ferched ddefnyddio cyfleusterau Maes PeByll MaesB.**

2. Meddiant

- a) Bydd y Maes Carafanau a Gwersylla ar agor o 14:00 Dydd Iau 3 Awst hyd 14:00 Dydd Sul 13 Awst 2017. **Nid oes modd derbyn carafanwyr cyn y dyddiad cyntaf** ac fe wneir trefniadau i symud unrhyw garafanau oddi ar y Maes wedi 16:00 ar y dyddiad olaf.
- b) Gofynnir i chi gofrestru bob person fydd yn aros yn y garafán / pabell ar ffurflen i'w chyflwyno i'r Arolygwyr wrth gyrraedd y Maes Carafanau. **Gyrrir ffurflen ar gyfer y diben hwn yn y pecyn atoch ddechrau Gorffennaf ynghyd â gweddill y wybodaeth angenrheidiol.**
- c) Os ydych angen cymorth, cyngor neu os oes gennych unrhyw anhawster tra ar y safle, cysylltwch â **Arolygwyr y Maes Carafanau**. Bydd y Swyddfa ar agor o **08:00 – 21:00** ar gyfer ymholiadau cyffredinol / lleoli ayb, a bydd swyddogion diogelwch yn bresennol tu allan i'r oriau hyn ar gyfer argyfwng yn unig.
- ch) Ni chaniateir i berson dan 18 oed aros mewn carafán / pabell heb arolygaeth oedolyn.
- d) Ni chaniateir i fwy o bobl aros mewn carafán / pabell na'r hyn y cynlluniwyd hi ar ei chyfer.
- dd) Anfonir glynion pwrpasol atoch i'w gosod ar y car / carafán / pabell, ac mae'n rhaid eu harddangos drwy gydol yr amser y byddwch ar y Maes Carafanau.
- e) Lleolir y carafanau a'r pebyll gan Arolygwyr y Maes Carafanau, a dylid dilyn unrhyw gyfarwyddyd a roddir. **Ni leolir unrhyw garafán / pabell ar ôl 21:00 a bydd penderfyniad yr arolygwyr i leoli neu beidio yn derfynol.**

3. Safle

- a) Lleolir y Maes Carafanau a Gwersylla Teuluol yn gyfochrog â Maes yr Eisteddfod.
- b) Dosberthir y safleoedd yn nhrefn derbyn ceisiadau. Fe'ch anogir felly i anfon eich cais yn brydlon os am eich lleoli mor agos â phosibl i fynedfa'r Maes.
- c)
 - i) Os ydych am eich lleoli yn agos i gyfeillion (**hyd at 12**), **RHAID** anfon y ffurflenni gyda'i gilydd, yn yr un amlen **NEU** gwlbhau'r adran berthnasol ar y ffurflen gais i gael eich lleoli mewn grŵp **ERBYN 12 MEHEFIN** - un person i fod yn gyfrifol am ddarparu'r manylion ar ran eich grŵp (cysylltwch â Swyddfa'r Eisteddfod am gyfarwyddiadau pellach).
 - ii) Os yn archebu a thalu dros y we ac am gael eich lleoli mewn grŵp, **RHAID** dilyn y cyfarwyddiadau perthnasol wrth wneud eich archeb.
 - iii) Ni ellir lleoli pabell mewn grŵp o garafanwyr oni bai eich bod yn archebu a thalu am safle carafan.
- ch) **Ni phrosesir ceisiadau grŵp** hyd nes fydd pob aelod o'r grŵp perthnasol wedi cwblhau a dychwelyd ffurflen gais i'r Swyddfa ynghyd â'r tâl priodol (ceisiadau grŵp erbyn 12 Mehefin).
- d) Os ydych yn fethedig neu os oes gennych anabled neu gyflyrau meddygol sydd yn achosi problemau cerdded yna nodwch hynny ar y ffurflen archebu.
- dd) Gosodir y Maes yn unol â'r canllawiau ar gyfer safleoedd carafanau dros dro - lleolir pegiau bob 10 medr, **a dylid gosod cornel flaen dde y garafán at y peg**, yn unol â chyfarwyddyd y swyddogion.
- e) Gellir gosod adlen **neu** un pabell fach (un / dau ddyn) ger eich carafan, ond rhaid cadw o fewn ffiniau eich safle gan adael o leiaf 3 medr rhwng y garafan nesaf. Ni ellir gosod pabell fawr (pabell deulu) gyfochrog a safle carafan ac eithrio eich bod yn archebu a thalu am safle carafán ychwanegol. **Ni chaniateir gosod pabell na gazebo tu ôl i garafan.**
- f)
 - i) **Carafan:** Rhaid cadw o fewn eich safle (10m x 7.5m), a chadw o leiaf 3 medr rhwng eich carafan neu adlen a'r garafán neu adlen nesaf.
 - ii) **Pabell:** Rhaid i chi gadw o fewn eich safle (5m x 7m), a chadw o leiaf 4 medr rhwng eich pabell a'r babel nesaf. Os ydych yn dymuno gofod ychwanegol, bydd rhaid archebu safle ychwanegol.

GWEITHREDIR Y RHEOL HON YN DDIAMOD, a bydd gofyn i chi symud unrhyw wrthrych fydd yn anghydfurfio.

4. Tâl

- a) i) **Carafan; carafan ac adlen neu garafan modur:** Os am archebu lle ymlaen llaw ar y Maes Carafanau rhaid talu am y cyfnod llawn o 10 noson sef **£260**.

- ii) Yn ddibynnol ar argaeledd, bydd modd archebu lle o'r 1 Mehefin am y 4 diwrnod olaf (Dydd Mercher 9 Awst i Ddydd Sul 13 Awst) am **£160**. Ni dderbynnir ceisiadau cyn y dyddiad yma. **SYLWER** – nid yw'n bosib lleoli carafanau sydd yn aros am 4 diwrnod gyda rhai sydd yn aros am y cyfnod llawn.
- b) i) **Pabell**: Os am archebu lle ymlaen llaw ar y Maes Gwersylla rhaid talu am y cyfnod llawn o 10 noson sef **£120**. Lleolir pebyll mewn ardal ddynodedig o'r Maes Carafanau.
 - ii) Yn ddibynnol ar argaeledd, bydd modd archebu lle o 1 Mehefin am y 4 diwrnod olaf (Dydd Mercher 9 Awst i Ddydd Sul 13 Awst) am **£75**. Ni dderbynnir ceisiadau cyn y dyddiad yma.
- c) Os tynnir y cais yn ôl, cedwir canran o'r tâl ar raddfa lithren yn ddibynnol ar pryd rhoddir y rhybudd. Ni ddylech wneud cais am safle ar y Maes Carafanau a Gwersylla os nad ydych yn sicr bod gennych garafán neu babell.
- ch) Byddwn yn anfon cydnabyddiaeth fod eich cais wedi ei dderbyn ar e bost neu drwy'r post lle na ddarperir cyfeiriad e bost. Er gwybodaeth, bydd taliadau trwy gerdyn yn ymddangos ar eich cyfrif fel pryniant 'Eisteddfod' os am brawf pellach fod eich cais wedi ei dderbyn a'i brosesu.

5. Trydan

- a) Ni chaniateir defnyddio generadur, na storio petrol / disel ar y Maes Carafanau.
- b) Darperir trydan i bob safle carafan gan yr Eisteddfod yn gynwysedig yn y pris. Cyfyngir y cyflenwad trydan i **10 amp** ac os byddwch yn gorlwytho'r cyflenwad, torrir y cysylltiad yn awtomatig. Gellir ailosod y swïts, ond os byddwch yn gorlwytho yn ormodol, dad-gysylltir y cyflenwad yn gyfan gwbl. Yn yr achos hwnnw ni roddir unrhyw ad-daliad.
- c) Does dim modd gosod cyflenwad trydan mewn pabell, oni bai eich bod yn archebu ac yn talu am safle carafan gan ddarparu plwg pwrpasol a safonol (gyda theclyn RCBO) ar gyfer cysylltu â'r cyflenwad.
- ch) Er mwyn diogelwch pawb, gwnewch yn siŵr fod eich offer trydanol yn cydymffurfio â'r holl safonau a rheoliadau cyfredol. Mae'r Eisteddfod yn gyfrifol am ddiogelwch trydanol hyd at y pwynt cysylltu, felly eich cyfrifoldeb chi yw ceblau, plygiau a phob offer sy'n gysylltiedig â hwy.
- d) Os byddwch yn cael unrhyw drafferth gyda'r cyflenwad trydan, mae'n holl bwysig eich bod yn adrodd **yn syth** i Swyddfa'r Maes Carafanau, gan ofyn iddynt drosglwyddo'r neges i staff technegol yr Eisteddfod.

6. Gwasanaethau

- a) Bydd yr unedau toiledau a chawodydd ar agor rhwng 06:30 a 23:00. Bydd un bloc o doiledau a/neu doiledau cemegol wrth yr ardal wersylla ar agor 24 awr y dydd.
- b) Darperir Uned Cawod a Thoiled hygyrch gyda sinc isel ar y Maes Carafanau a Gwersylla.

- c) Erfynnir am eich cymorth a chydweithrediad i geisio cadw'r toiledau a'r cawodydd yn lân. Darperir bwcedi a mop a gofynnir i chwi barchu'r cyfleusterau er budd eich cyd breswylwyr.
- ch) Gwneir pob ymdrech i ddarparu y cawodydd gorau posibl i breswylwyr. Gofynnwn yn garedig am eich cydweithrediad os yn bosibl i wneud defnydd o'r cawodydd ar adegau llai prysur o'r dydd.
- d) Mae gan yr Eisteddfod Genedlaethol Bolisi Cynaliadwyedd (ar gael ar wefan yr Eisteddfod) ac fe'ch anogir i'n cynorthwyo i leihau gwastraff yn y lle cyntaf gan ailgylchu unrhyw wastraff gweddilliol a gynhyrchir trwy ddefnyddio'r gwasanaethau a ddarperir.
- dd) Dylid rhoi unrhyw sbwriel na ellir ei ailgylchu yn y sachau priodol (sydd i'w cael o'r swyddfa), a gwaredu'r sachau yn y biniau a ddarperir. Gofynnir yn garedig i chwi sicrhau nad ydych yn gadael unrhyw sbwriel ar eich ôl wrth ymadael.
- e) **Ni chaniateir ymolchi wrth y tapiau dŵr**, a rhaid golchi bwcedi elsan wrth y tapiau priodol. Sicrhewch nad ydych yn golchi'r bwcedi hyn wrth y tapiau dŵr yfed.
- f) Darperir adnoddau ar gyfer golchi llestri i'r gwersyllwyr.

7. Ymddygiad a Rheolaeth

- a) Cyfrifoldeb rhieni yw gofalu a goruchwyllo ymddygiad a diogelwch eu plant.
- b) Mewn achos affodus o gŵyn, cysylltwch â swyddogion y Maes Carafanau yn gyntaf gan ei bod yn bwysig eu bod yn cael y cyfle i ddatrys unrhyw broblem yn ystod eich arhosiad. Os na all y broblem yn cael ei datrys, cysylltwch â Swyddfa'r Eisteddfod ar y Maes.
- c) **Gofynnir i chi beidio â chadw sŵn afresymol, yn enwedig ar ôl hanner nos.** Os derbynir cwynion am sŵn, rhoddir dau rybudd swyddogol, ac yna gweithredir rheol 7(ch).
- ch) Os bydd unrhyw un ar y safle yn anwybyddu y rheolau ac yn parhau i darfu ar fwynhad pobl eraill yn dilyn rhybuddion swyddogol, gall y swyddogion derfynu'r denantiaeth yn ddirybudd ac ar unwaith neu gymryd unrhyw gamau eraill yn ôl yr angen. Os terfynir tenantiaeth wrth weithredu'r rheol hon, ni ad-delir unrhyw dâl.

8. Iechyd a Diogelwch

- a) Fel y gall pawb fwynhau eu harhosiad ar y Maes Carafanau, dilynwch gyfarwyddyd y swyddogion a'r holl arwyddion a chyfarwyddiadau. Mae eich iechyd a diogelwch yn bwysig, felly gofaluwch am eich hun ac eraill ar y safle.
- b) **Beiciau** - Mae'r Eisteddfod yn gwneud pob ymdrech i sicrhau diogelwch ymwelwyr ar y Maes Carafanau. Gosodir y tracfyRDDau i hwyluso symudiad cerbydau - nid ydynt yn addas i feiciau ac anogir beicwyr i beidio â'u defnyddio. Gwaherddir y defnydd o feiciau yn llwyr ar ôl iddi hi dywyllu. **Erfynnir yn daer ar rieni a gofaluwyr i gydymffurfio â'r rheol hon.**
- c) Cymorth Cyntaf - rhaid cael offer cymorth cyntaf sylfaenol ym mhob carafán.
- ch) Ni chaniateir i neb gysgu mewn car ar y Maes Carafanau.

- d) **Bydd hawl parcio UN CERBYD yn unig ger pob carafan. Rhaid parcio cerbydau ychwanegol** (neu gerbyd yr ydych am ei ddefnyddio yn ystod yr wythnos) **yn y maes parcio.**
- dd) **Ac eithrio mewn amgylchiadau arbennig neu argyfyngus, gwaharddir yn llwyr y defnydd o gerbydau ar y Maes Carafanau a Gwersylla.**
- e) Os cyfyd argyfwng neu ddigwyddiad ar y safle, gweithredir system hysbysu trwy negeseuon SMS gan swyddogion yr Eisteddfod i gysylltu â phreswylwyr y Maes Carafanau a Gwersylla. **Er mwyn gweithredu hyn yn effeithiol gofynnir i chi ddarparu un rhif cyswllt symudol ar gyfer yr wythnos gan ei nodi ar y ffurflen gais os gwelwch yn dda.**

9. Tân

- a) Rhaid cadw gofod digonol rhwng eich uned a'r uned nesaf, yn unol â chyfarwyddyd y swyddogion ar y Maes.
- b) Gosodir bob carafán o fewn 90 medr i bwynt tân. Ym mhob pwynt tân ceir dau ddiffodydd 9 litr dŵr a chloch i'w chanu er mwyn tynnu sylw. Gofynnir i chi ymgyfarwyddo â lleoliad eich pwynt tân agosaf.
- c) Diffoddwr tân - rhaid cael diffoddwr tân pwrpasol, o leiaf 900 gram o bowdr. Hefyd, argymhellir yn gryf bod blanced tân pwrpasol ar gael ger yr ardal goginio.
- ch) Rhaid cael larwm mwg sydd wedi ei brofi yn ddiweddar tu mewn i bob carafan.
- d) Ni chaniateir tanau agored ar y Maes, ond caniateir barbiciw pwrpasol. Gwaharddir y defnydd **o farbiciws tu fewn i bebyll, adlenni a charafanau** oherwydd y nwyon peryglus y maent yn creu yn ogystal â'r perygl tân. Peidiwch a'i defnyddio i wresogi.
- dd) Os digwydd tân, symudwch bawb allan yn syth, a rhybuddiwch y bobl yn y carafanau neu bebyll o'ch cwmpas a ffonio 999 neu 112 gan roi Maes Carafanau yr Eisteddfod, Bodedern fel lleoliad.

10. Ymwelwyr

- a) Rhaid i bob ymwelydd barcio yn y maes parcio gerllaw y Maes Carafanau a Gwersylla.

11. "Force Majeure"

- a) Petai angen lleihau'r cyfnod neu ddileu tenantiaeth y Maes Carafanau a Gwersylla yn gyfan gwbl oherwydd amgylchiadau tu hwnt i reolaeth yr Eisteddfod (e.e. tywydd garw, clwy traed a'r genau ayb), ni wneir unrhyw ad-daliad. Fe'ch cynghorir i sicrhau yswiriant digonol ar gyfer amgylchiadau eithriadol o'r fath.

12. Yswiriant

Mae hi yn anghyfreithlon i beidio yswirio carafan os yw yn garafan deithiol neu garafan drelar. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau yswiriant addas a digonol ar gyfer eich carafan, adlen a'u cynnwys. Mae gan yr Eisteddfod yswiriant atebolrwydd cyhoeddus.

13. Tocynnau

Bydd manylion cynigion arbennig tocynnau Maes a chyngherddau nosweithiol ar gael o 3 Ebrill ar wefan yr Eisteddfod, neu'r llinell docynnau 0845 40 90 800.



**Eisteddfod
Genedlaethol
Ynys Môn**
2017

Am y wybodaeth ddiweddaraf am
yr Eisteddfod Genedlaethol ewch i'n gwefan

www.eisteddfod.cymru

neu'r dudalen facebook

www.facebook.com/eisteddfod

Swyddfa'r Eisteddfod
Uned 15 Parc Busnes Yr Wyddgrug
Ffordd Wreccsam
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 1XP

0845 40 90 400